# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Adroddiad Effaith Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Rydych wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn ymchwil ar gyfer Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGYLG) naill ai gan **GC Insight, www.gcinsight.co.uk**, neu eu partner gwerthuso: **CAG Consultants, www.cagconsultants.co.uk.** Cyn i chi gytuno i gymryd rhan, rydym am i chi wybod yn union sut y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio.

Dylai'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'ch helpu i benderfynu a ydych am gymryd rhan yn yr ymchwil. Os hoffech gael gwybod mwy, mae manylion ar ddiwedd y ddogfen hon ynghylch sut i gysylltu, a byddem yn hapus i helpu.

### Beth yw pwrpas hyn?

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGYLG) yn dyfarnu grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol i sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig. Mae GC Insight wedi cael eu comisiynu i gynnal ymchwil i helpu'r Gronfa i ddeall sut mae grantiau wedi cael eu defnyddio a'r gwahaniaeth y mae’r grantiau wedi'i wneud i sefydliadau sy'n ddeiliaid grant a'u buddiolwyr. Mae'r Gronfa hefyd â diddordeb mewn deall effaith newidiadau diweddar i'r trothwy ariannu ar gyfer ei grantiau Arian i Bawb (o £10,000 i £20,000). Bydd canlyniadau'r ymchwil yn darparu tystiolaeth o ba mor dda y mae'r Gronfa wedi cyflawni ei hamcanion, a byddant yn cael eu defnyddio i helpu'r Gronfa i gynllunio gwaith yn y dyfodol.

Bydd yr ymchwil yn cynnwys:

- Gwahodd sefydliadau y daeth eu grantiau i ben rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 i gymryd rhan mewn arolwg byr am yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r prosiect, pwy a gafodd fudd o'r prosiect, faint o bobl a gafodd fudd ohono, a beth oedd y manteision. Gall yr arolwg fod ar-lein (ar y we) neu dros y ffôn.

- Gwahodd nifer fach o sefydliadau a oedd â grant Arian i Bawb rhwng 1 Tachwedd 2022 a diwedd Hydref 2023, neu 1 Mawrth 2024 a 31 Rhagfyr 2024 i gymryd rhan mewn cyfweliad ansoddol. Bydd y cyfweliadau hyn yn archwilio effaith newidiadau i drothwy’r grant Arian i Bawb ar gyflawni prosiectau, cyflawniadau prosiectau, ac ar ddatblygiad y sefydliad ei hun.

Efallai y cewch eich gwahodd i gymryd rhan yn un neu'r ddwy elfen uchod o'r ymchwil.

### Beth fydd yn ei olygu?

Bydd gwahoddiadau e-bost yn cael eu hanfon i’ch gwahodd i gwblhau’r arolwg ar-lein. Dylai'r arolwg gymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Os byddwn yn eich gwahodd i gwblhau arolwg ar-lein ac nad ydych yn ei gwblhau, efallai y byddwn yn eich ffonio i weld a fyddai'n well gennych gymryd rhan mewn cyfweliad ffôn byr yn lle. Os hoffech, bydd un o'n hymchwilwyr yn eich ffonio ar amser sy'n gyfleus i chi i gynnal yr arolwg dros y ffôn. Dylai'r arolwg ffôn bara tua 30 munud.

I'r rhai a wahoddir i gymryd rhan yn y cyfweliadau ansoddol ynghylch grantiau Arian i Bawb, bydd y rhain yn cael eu trefnu a'u cynnal gan CAG Consultants, partner gwerthuso GC Insight. Cynhelir y cyfweliadau trwy Microsoft Teams a dylent bara tua 30 munud.

Noder, NAD OES RHAID i chi gymryd rhan mewn unrhyw elfen o'r ymchwil. Chi sydd i benderfynu'n os ydych am gymryd rhan ai peidio, ac ni fydd gwrthod cymryd rhan yn rhagfarnu unrhyw ryngweithiadau â'r Gronfa yn y dyfodol. Os ydych yn newid eich meddwl ar unrhyw adeg ynglŷn â chymryd ar ôl cytuno'n wreiddiol, gallwch wneud hynny heb roi rheswm.

### Pa sefydliadau sy’n cymryd rhan yn yr ymchwil?

| | |
|---|---|
| COMMUNITY FUND | **Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus sydd â dyletswydd statudol i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac arian arall at achosion da. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi comisiynu'r ymchwil hwn.** |
| Insight | Yr ymgynghoriaeth annibynnol a ofynnwyd gan CGYLG i gynnal yr ymchwil hwn ar eu rhan fel y gall CGYLG ddeall pa mor dda y mae ariannu a grantiau'r Loteri Genedlaethol wedi cael eu defnyddio. |
| CAG CONSULTANTS | Partner ymchwil GC Insight sy'n cefnogi GC Insight ac yn cyflawni elfen ansoddol yr ymchwil. |

### Pa wybodaeth fydd gennych amdanaf?

Cyn gofyn i chi gymryd rhan yn yr ymchwil, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi rhoi manylion deiliaid grant perthnasol i ni, gan gynnwys manylion cyswllt (enwau, rolau, sefydliad, rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost ac anghenion/dewisiadau cyfathrebu penodol) a manylion am y grant diweddaraf a ddyfarnwyd (swm a phwrpas).

Os dewiswch gymryd rhan yn yr ymchwil, byddwn yn casglu gwybodaeth ychwanegol gennych yn ymwneud â'ch profiadau, eich meddyliau a'ch barn. Er enghraifft, byddwn yn gofyn sut y gwnaethoch ddefnyddio'r grant, pa wahaniaeth (os o gwbl) a wnaeth i'ch sefydliad, a'ch barn ar y newid i’r trothwy Arian i Bawb (os yw hyn yn berthnasol i chi).

### Sut fydd fy ngwybodaeth yn cael ei storio?

Dim ond Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'r bobl sy'n cael eu cyflogi yn y timau ymchwil yn GC Insight a CAG Consultants fydd yn gallu gweld eich data personol, gan gynnwys eich meddyliau a'ch barn a rennir gyda ni.

Ar ôl i ni gasglu eich ymatebion arolwg/cyfweliad, byddwn yn:

- Dadansoddi'r **holl ddata** a chynhyrchu adroddiad canfyddiadau a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Gronfa. Bydd yr adroddiad canfyddiadau yn cyfuno’r ymatebion, ac er y gallwn gynnwys dyfyniadau dienw, ni fydd modd adnabod unrhyw ddeiliad grant unigol yn yr adroddiad. Fel rhan o'r adroddiad, fodd bynnag, efallai y byddwn yn cynhyrchu astudiaethau achos. Os gwnawn hynny, bydd yr astudiaeth achos yn cynnwys enw'r sefydliad a gwybodaeth adnabod arall. Gofynnir yn benodol i unrhyw ddeiliaid grant a wahoddir i fod yn astudiaethau achos am eu diddordeb mewn dod yn astudiaeth achos a cheisir eu caniatâd yn benodol.
- Darparu trawsgrifiadau electronig o'r **cyfweliadau ansoddol** i'r Gronfa. Bydd y trawsgrifiadau hyn yn ddienw. Mae hyn yn golygu y bydd y Gronfa yn gallu gweld y data personol rydych chi wedi'i rannu gyda ni (er enghraifft eich barn ar y gwahaniaeth y mae'r grant wedi'i wneud i'ch sefydliad) fodd bynnag, ni fyddant yn gwybod pwy sydd wedi'i ddweud.
- Llunio set ddata o'r holl ymatebion **arolwg ar-lein a dros y ffôn** (gan gynnwys sut rydych chi wedi defnyddio'r grant a ddyfarnwyd i chi). Bydd y set ddata hon yn cynnwys dynodwyr personol (fel eich enw a'ch sefydliad) a bydd yn cael ei darparu i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae ein systemau digidol a'n prosesau mewnol yn cydymffurfio â GDPR a rheoliadau prosesu data eraill.

Bydd eich data personol yn cael ei gadw am ddim mwy na chwe mis ar ôl i ni orffen y prosiect. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i hyn fod ym mis Awst 2026. Os dewiswch optio allan yng nghanol yr ymchwil, byddwn yn cadw eich data yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os byddwch yn arfer eich hawl i gael eich anghofio, yna byddwn yn dileu eich holl ddata ar unwaith.

## Beth allaf i ei wneud os nad wyf yn hapus â sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Ar unrhyw adeg, gallwch ddewis peidio â chymryd rhan yn yr ymchwil, neu i'ch gwybodaeth gael ei dangos i chi, ei newid neu ei dileu. Os ydych chi am wneud cwyn am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei storio neu ei defnyddio, gallwch gysylltu â:

Insight

0161 528 1660 or dataprotection@gcinsight.co.uk

ico. Information Commissioner's Office

0303 123 1113 https://ico.org.uk

## A oes unrhyw wybodaeth arall y gallai fod angen i mi ei gwybod?

Gan ein bod ni’n gofalu am eich data personol, mae yna rai cyfreithiau y mae angen i ni eu dilyn, a rhai pethau y mae angen i ni eu rhannu gyda chi.

| | |
|---|---|
| **Cyfreithiau a chodau** | **Rydym yn dilyn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data (2018).**<br><br>**Data protection: The UK's data protection legislation - GOV.UK** |

| | |
|---|---|
| **Rheolwr data a phrosesydd data** | Y rheolwr data ar gyfer eich data personol at ddibenion diogelu data yw Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.<br><br>Y proseswyr data yw GC Insight a CAG Consultants. |
| **Beth yw 'data personol'?** | Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) fel "unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at ddynodwr". |
| Sail gyfreithiol i brosesu | O dan GDPR y DU, y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu eich data yw:<br><br>**Tasg Gyhoeddus** – mae rhywfaint o'ch data personol wedi'i rannu gyda ni o dan sail gyfreithiol 'tasg gyhoeddus' – gan fod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus sydd â dyletswydd statudol i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac arian arall at achosion da. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn prosesu data personol fel rhan angenrheidiol o arfer yr awdurdod swyddogol hwn a roddir iddynt, gan gynnwys ar gyfer gweithgaredd gwerthuso a dysgu. Mae hyn wedi'i fanylu ymhellach o dan hysbysiad preifatrwydd Cronfa'r Loteri Genedlaethol ar gyfer gweithgareddau rhoi grantiau: Hysbysiad diogelu data a phreifatrwydd \| Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol<br><br>**Caniatâd** – mae'r wybodaeth a rannwch gyda ni pan fyddwch yn cymryd rhan yn y cyfweliadau yn cael ei gwneud o dan sail gyfreithiol 'caniatâd'. Mae hyn yn golygu eich bod wedi dweud wrthym eich bod yn hapus i rannu'r wybodaeth hon gyda ni. |
| **Ble mae eich data yn cael ei storio** | Bydd yr holl wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, neu a gasglwn yn ystod y grŵp adborth, yn cael ei chadw naill ai yn y DU neu'r Undeb Ewropeaidd.<br><br>Bydd eich data yn cael ei storio mewn ffolderi mynediad cyfyngedig ar ein gweinyddion diogel. |
| **Manylion pwysig am GC Insight** | • Ein cyfeiriad: Lee House, 90 Great Bridgewater Street, Manchester, M1 5JW<br>• Ein rhif ffôn: 0161 528 1660<br>• Ein cyfeiriad e-bost: enquiries@gcinsight.co.uk<br>• Ein rhif cwmni: 3162288<br>• Rydym wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'n rhif yw: ZB696723 |

| | |
|---|---|
| **Pwy arall allai fod â mynediad at eich data personol** | Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich data personol gyda:<br><br>• Darparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n darparu'r systemau TG a'r feddalwedd angenrheidiol er mwyn i ni allu gweithio. |